

Cymanfa

Cynhelir Cymanfa Annibynwyr Cylch Cwm-y-glo am 2.00 o'r gloch ddydd Sul, Medi 20, yn Ysgol Gymuned Penisarwaun.

Tymor newydd

Mae tymor newydd yr ysgolion yn dechrau'r wythnos hon. Dymunwn yn dda i'r plant a'r bobl ifanc, yn arbennig bawb sy'n cychwyn mewn ysgol neu goleg newydd. Llongyfarchiadau hefyd i bawb a fu'n llwyddiannus yn eu gwahanol arholiadau yr haf hwn.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 6: Oedfa am 10.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog. **Sylwch mai am 10.00 o'r gloch y mae'r oedfa os gwelwch yn dda.**

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Medi 6: Oedfa am 10.00 o'r gloch yng ngofal Mr John H Hughes. Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Oedfa am

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 6

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Medi 13

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr T Alun Williams

Medi 20

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 27

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 6: Oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Medi 6: Gwasanaethiram 2.00 o'r gloch gan Miss Sioned Williams, Bethesda.

CARMEL

Dydd Sul, Medi 6: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Medi 4: Bydd Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Medi 6

10.00 a.m. - Mr John H Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd

Medi 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Medi 20

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion W Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa

Medi 27

10.00 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 647: Dydd Sul, 30 Awst, 2015

Gwerth gweddi?

Mewn llythyr yn y *Daily Post* ddydd Mercher roedd Gerard Tobin o Gonwy yn feirniadol o ymateb yr eglwysi Cristnogol i ddiodeffaint y ffoaduriaid sy'n ceisio lloches yn ein plith ar hyn o bryd. Wn i ddim pa gyswllt sydd gan Mr Tobin â'r eglwysi'n gyffredinol nac â'r un eglwys unigol. Ond yr hyn a wn yw ei fod, wrth gyhuddo'r eglwysi o wneud dim ond gweddio dros y bobl hyn, yn gorgyffredinoli. Wrth wneud hynny mae'n gwneud cam mawr â rhai eglwysi ac yn rhy garedig wrth eraill.

Dros y misoedd diwethaf, nid gweddio yn unig a wnaeth rhai eglwysi. Buont hefyd yn codi llais ac yn llythyr â gwleidyddion er mwyn ceisio dwyn perswad ar y Llywodraeth i groesawu rhagor o ffoaduriaid i wledydd Prydain. Buont yn gefnogol o ymdrechion mudiadau fel Cymorth Cristnogol i helpu pobl mewn llefydd fel Syria ac Irac. Ac mewn aml i dref a dinas bu eglwysi'n croesawu'r ffoaduriaid a ddaeth i'w plith gan roi iddynt gymorth ymarferol o bob math. Cwbl annheg ar ran yw Mr Tobin yw awgrymu na wnaeth eglwysi o'r fath ddim ond gweddio. Ond yn anfwriadol mae'n rhy garedig wrth ambell i eglwys wrth eu cyhuddo o wneud dim ond gweddio, a hwythau o bosibl heb offrymu'r un weddi dros yr un ffoadur.

Pa reswm bynnag sydd ganddo dros feirniadu'r eglwysi, mae beirniadaeth Mr Tobin nid yn unig yn annheg ond hefyd yn amhriodol. Nid bai'r eglwysi

Cristnogol yw'r hyn sy'n digwydd yn Syria a'r gwledydd eraill y mae'r bobl hyn yn ffoi ohonynt. Ac nid esgus dros beidio â gwneud dim dros bobl eraill yw'r gweddiau a offrymir dros ffoaduriaid wrth eu cyflwyno i ofal Duw (er bod Cristnogion ar brydiau mewn rhwystredigaeth yn cydnabod mai gweddio yw'r unig beth y gallant ei wneud).

Yn aml, mewn gwewyr a dryswch y mae pobl Dduw'n gweddio pan nad yw'n amlwg fod Duw'n clywed nac yn ateb eu gweddiau. Mewn tristwch mawr y gwnant hynny hefyd wrth glywed, fel y gwnaethant yr wythnos ddiwethaf, am 71 o bobl yn marw mewn hen lori fwyd yn Awstria ac oddeutu 200 o bobl eraill yn boddi oddi ar arfordir Libya. Ond o greu yng ngrm gweddi, ac o wybod y byddai miloedd o'r ffoaduriaid sy'n ceisio lloches yng ngwledydd Ewrop yn falch o wybod fod rhywrai'n gweddio drostynt, mae Cristnogion yn ymdrechu i barhau i wneud hynny, er i rai fel Mr Tobin fwrw eu llach ar weddi ei hun gan ei chymharu ag arian diwerth ('valueless currency').

Mae gofyn i'r eglwysi fod yn ddigon aeddfed a gostyngedig i ystyried pob beirniadaeth resymol a chyfiawn. Ond pan fo miloedd yn marw, mae angen i bobl ffydd a phawb arall, yn unigolion a llywodraethau, wneud popeth posibl i achub bywydau. Ac mae gwell ffyrdd o wneud hynny na dirmygu gweddiau diffuant a gonest pobl Dduw.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch yn
Capel Coch gan y Gweinidog.

Cynhelir Oedfa yn Neiniolen am 5.00
o'r gloch dan arweiniad rhai o aelodau'r
eglwysi.

Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch yn
Llanllechid gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris nac yn
Nhalybont heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau hefyd at bawb
ohonoch sydd heb fod yn dda gartref ar
hyn o bryd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Glenys
Jones, 29 Adwy'r Nant, Bethesda yn y
brofedigaeth lem o golli ei merch Rhian
Mair Roberts, Ffordd Gerlan, Bethesda
ar Awst 4, yn 52 mlwydd oed.

Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd fy
nhad, Mr Myrddyn Pritchard, 1 Ffordd
Padarn, Llanberis yn Capel Coch ddydd
Iau, Awst 20. Bu farw yng Nghartref
Nyrzio Penisarwaun nos Wener, Awst 14
yn 96 mlwydd oed.

Roeddwn i'n arwain yr oedfa, a chefais
gymorth y Parchg Bryn Williams,
Pwllheli. Diolch yn fawr iddo ac i Mrs
Bethan Holding, yr organyddes.

Bu Dad yn aelod ffyddlon o'r eglwys yn
Nant Padarn ar hyd y blynyddoedd, a
deuai'n ffyddlon i'r oedfaon yn Capel
Coch wedi hynny nes i'w iechyd dorri.
Yn naturiol, bum yn sôn amdano fel tad
a thaid a hen daid, yn ogystal ag fel
brawd ac ewythr arbennig i ni'r teulu.

Yn naturiol hefyd, soniais amdano'n
gweithio'n galed ar hyd y blynyddoedd
yn y busnes teuluol yn Central Garage,
lle bu'n brysur gyda'r loris a'r siaris a'r

ceir, a hyd yn oed yr ambiwlans a fu yn
cyn dyddiau'r Wladwriaeth Les. I lawer
iawn o bobl, y gwasanaeth a roddodd fel
trefnydd angladdau a ddaw i'r meddwl
gyntaf, a chyflawnodd y gwaith hwnnw
gydag urddas a'r cydymdeimlad mwyaf
bob amser. Roedd yn dali i fynychu'r
angladdau o fewn dau neu dri mis i'w
ben blwydd yn 92 oed.

Cafodd iechyd da hyd at ryw ddwy
flynedd yn ôl, ac ers deunaw mis cafodd
ofal ardderchog yng Nghartref Nyrzio
Penisarwaun. Gwerthfawrogwn y gofal
hwnnw'n fawr iawn.

Diolch i bawb a ddaeth i'r angladd. Fel
yn angladd Mam fis Mawrth diwethaf,
roedd yno rywrai o bob un o eglwysi'r
Ofalaeth, a gwerthfawrogaf hynny'n
fawr. Diolch i'r teulu estynedig a'r
cyfeillion a'r cymdogion a fu'n gefn i ni
fel teulu.

Diolch ar ran Jane, Ted a Janet, a Falmai
a minnau a'r holl deulu am bob
cydymdeimlad unwaith eto. Diolch
hefyd am y rhodion a dderbyniwyd er
côf am Dad tuag at Ysgol Pendalar,
Caernarfon a Thy Gobaith.

Beibl Canllaw

Cyhoeddwyd y *Beibl Canllaw* yn ystod
mis Awst, ac mae'r copiau a archebwyd
cyn y gwyliau wedi cyrraedd erbyn hyn.

Os cofiwch, roedd i'w gael am £20 yn
lle'r pris arferol o £25.

Gobeithio bod y rhai sydd eisoes wedi
eu cael eu copi wedi eu plesio.

Mae gen i ddau neu dri copi dros ben
gan i mi archebu copiau ychwanegol.
Os ydych eisiau un o'r rhain cysylltwch
â mi. Cofiwch mai'r cyntaf i'r felin
fydd hi i arbed £5. Ffoniwch 01286
872390, neu anfonwch e-bost at
john.cilfynydd@btinternet.com.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mr Glyn Griffith
Williams, 1 Dôl Eilian, Llanberis yn
Capel Coch ddydd Mawrth, Awst 11 dan
arweiniad y Gweinidog. Bu farw yn 67
mlwydd oed ar Awst 2. Cydymdeimlwn
â'i frawd Stan a'i chwaer Jane a'r teulu
yn eu colled. Diolch i Bethan Holding
am ei gwasanaeth wrth yr organ yn yr
oedfa.

Cynllun Efe

Ganol y mis, cafodd Andrew Settatree,
Gweithiwr Ieuencid Efe, lawdriniaeth
i'w law. Cafodd anaf yn gynharach
eleni, ond nid oedd yn amlwg ar y pryd
fod yr anaf hwnnw mor ddrwg.

Dymunwn wellhad buan iddo. Bydd raid
dilyn cyngor y meddyg o ran dechrau
gweithio wrth gwrs. Ond gan na chaiff
yrru car am rai wythnosau bydd angen
help arno i gyrraedd y cyfarfodydd a
fydd ganddo o amgylch yr ardal.

Y Gymdeithas

Ym Mhwyllgor Cymdeithas Undebol
Llanberis ym mis Gorffennaf diolchwyd
i Miss Dilys Mai Roberts a Mrs Anne
Parry am eu gwaith fel Ysgrifennydd a
Thrysorydd am flynyddoedd lawer.

Ers y cyfarfod, mae Mr Eifion Roberts
wedi derbyn swydd y Trysorydd, ond ni
lwyddwyd i benodi Ysgrifennydd. Gall
hynny olygu y bydd llai o gyfarfodydd
nag arfer eleni.

Cynhelir cyfarfod agoriadol y tymor
newydd yn Capel Coch am 7.00 o'r
gloch, nos Fawrth, Hydref 13, yng
nghwmni Annete Bryn Parri, Deiniolen.

Yn naturiol, byddwn yn falch o gael
Ysgrifennydd ar gyfer y tymor nesaf.
Rhowch wybod i'r Gweinidog os ydych
yn fodlon gwneud y gwaith.